



# CYNLLUN IAITH GYMRAEG PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

## A baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae'r Cynllun hwn wedi derbyn cymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg o dan Adran 14 (1) y Ddeddf ar 6 Awst 2014.

# CYNNWYS

Tudalen

## CYNLLUN IAITH GYMRAEGPRIFYSGOL CYMRU YDRINDODDEWISANT

|   |    |
|---|----|
| <u>CynllunCraidd</u>  | 2  |
| 1. Rhagarweiniad  | 2  |
| 2. Cefndir  | 4  |
| 3. Cyflwyno Gwasanaethau  | 7  |
| 4. Polisiâu a Mentrau Newydd  | 8  |
| 5. Sicrhau Ansawdd wrth gyflwyno gwasanaethau a rhaglenni yn Gymraeg  | 8  |
| <br>  |    |
| <u>ADRANA:Cynllun Gweinyddol</u>  | 13 |
| <br>  |    |
| <u>ProffilStaffio</u>   | 13 |
| <u>Cyfathrebu â'rcyhoedd</u>  | 14 |
| 1. Gohebu'n ysgrifenedig ar bapur ac yn electronig â'r cyhoedd  | 14 |
| 2. Cyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn   | 14 |
| 3. Cyfarfodydd cyhoeddus, darlithoedd cyhoeddus, gwrandawiadau ac unrhyw gyfarfodydd cyfreithiol  | 15 |
| 4. Cyfarfodydd eraill gydag aelodau o'r cyhoedd a fydd yn ymweld â'r Brifysgol  | 15 |
| 5. Delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill, e.e. gwefan, cysylltiadau teleffideo, systemau cyfarch cyhoeddus   | 16 |
| 6. Gweithredu'r Cynllun Iaith â Staff y Brifysgol yn Fewnol   | 16 |
| <br>  |    |
| <u>Datblygu ethosdwyieithogysefydliad</u>   | 17 |
| 7. Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad yng Nghymru   | 17 |
| 8. Arwyddion Gwybodaeth o fewn ffiniau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant  | 17 |
| 9. Cyhoeddi a phrintio deunydd sydd wedi ei gyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru   | 17 |
| 10. Ffurflenni a deunydd esboniadol sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru  | 18 |
| 11. Hysbysiadau i'r wasg sydd i'w dosbarthu yng Nghymru   | 18 |
| 12. Deunydd cyhoeddusrwydd, ymgyrchoedd hysbysebu, ymgyrchoedd marchnata a dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyhoeddusrwydd yng Nghymru | 18 |
| 13. Hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau recriwtio staff   | 19 |
| 14. Strategaeth Sgiliau Dwyieithog  | 19 |
| 15. Hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg  | 21 |
| <br>  |    |
| <u>ADRANB:Cynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg</u>  | 22 |
| <br>  |    |
| <u>ADRAN C: Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a Dwyieithog</u>   | 27 |

# CYNLLUN IAITH GYMRAEG PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

**Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993.**

## **CYNLLUN CRAIDD**

### **1. Rhagarweiniad**

#### **1.1 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

O dan Adran 5 Deddf Yr Iaith Gymraeg 1993 y mae gofyn i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, baratoi Cynllun Iaith. Man cychwyn pob Cynllun yw'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf. I'r perwyl hwn:

"Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd."

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn trosglwyddo swyddogaethau o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n ymwneud â'r cynlluniau iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi grym cyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg. Dros gyfnod o amser, bydd cynlluniau iaith Gymraeg yn cael eu disodli gan safonau statudol a fydd yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddant yn nodi sut y disgwylir i sefydliadau ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd a sut y byddant yn trin a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i gymryd camau cadarnhaol i weithredu swyddogaethau o dan y Mesur newydd.

#### **1.2 Cynnwys y Cynllun Iaith**

Mae'r Brifysgol ar ei newydd wedd wedi ei chreu drwy uno Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe yn 2013, gyda'r bwriad o ddarparu system addysgol newydd ar gyfer De Orllewin Cymru. Cryfhawyd y bartneriaeth ymhellach wrth i Goleg Sir Gâr ( Awst 2013) a Choleg Ceredigion (Ionawr 2014) ymuno â grŵp Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod statws y Gymraeg yn amrywio o gampws i gampws ar hyn o bryd ac adlewyrchir hyn yn y trefniadau a nodir isod. Gwêl y sefydliad y cynllun iaith hwn yn fodd o fynd i'r afael â'r heriau gwahanol sy'n wynebu'r campysau unigol.

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun hwn, bydd y Senedd, sef is-bwyllgor i Gyngor y Brifysgol, yn gyfrifol am sicrhau ei weithrediad. Gwneir hyn drwy sefydlu cylch o weithgorau a phwyllgorau a fydd yn ystyried gofynion y cynllun ar y lefel briodol fel a ganlyn:

- Bydd dau Weithgor Monitro'r Cynllun Iaith yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun Iaith o ddydd i ddydd, y naill â chyfrifoldeb dros gampysau Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan, a'r llall â chyfrifoldeb dros gampysau Abertawe.
- Mae'r Gweithgorau uchod yn adrodd i'r Pwyllgor Materion Cymraeg sy'n gyfrifol am fonitro pob agwedd ar y Gymraeg a dwyieithrwydd ar draws y sefydliad.
- Mae'r Pwyllgor Materion Cymraeg yn adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio Academiaidd sydd yn ei dro yn adrodd i Senedd y brifysgol.

Er bod y brifysgol ar ei newydd wedd yn wahanol iawn i'r brifysgol cyn yr uno, pwysleisir mai cynllun diwygiedig yw hwn sydd ar y cyfan yn adlewyrchu nodau ac amcanion cynllun iaith cyntaf Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Bwriedir sicrhau bod y brifysgol ar ei newydd wedd yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru mewn dull cydlynus a strategol. Cydnabyddir, serch hynny, fod cryn wahaniaeth rhwng ymrwymiad presennol y campysau yn Abertawe ac ymrwymiad y campysau eraill at y Gymraeg ac y bydd ffactorau hanesyddol yn dylanwadu ar weithredu'r Cynllun hwn yn ystod cyfnod cynnar y Cynllun. Er hynny, mae'r Brifysgol ar ei newydd wedd eisoes wedi gwneud camau breision ar ambell gampws yn Abertawe gyda phenodiadau dwyieithog allweddol yn digwydd yng nghyd-destun swyddi academiaidd a gweinyddol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Cynllun Craidd sy'n amlinellu prif safonau'r Brifysgol wrth ddarparu'i gwasanaethau dwyieithog. Ni ragwelir y bydd angen gwneud newidiadau neu ddiwygiadau cyson i'r adran hon. Yn atodol i hyn, ceir adrannau sydd wedi'u trefnu'n thematig, sef:

- Adran A: Cynllun Gweinyddol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Adran B: Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

sy'n cynnwys targedau'n deillio'n uniongyrchol o'r ymrwymadau gweithredol yn y Cynllun Craidd a'r Cynllun Gweinyddol.

Mae'r Brifysgol wrthi ar hyn o bryd yn llunio Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a Dwyieithog newydd a gaiff ei ystyried yng nghyfarfod cyntaf y Senedd ar ei newydd wedd fis Hydref 2014. Bydd y cynllun hwn yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol y sefydliad – fel y'u cyflwynwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yng Ngorffennaf 2014 - yn ogystal ag ymateb yn uniongyrchol i gynllun academiaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ychwanegir y strategaeth at y cynllun iaith hwn fel atodiad unwaith bod y strategaeth derfynol wedi ei chymeradwyo.

Sicrheir y bydd y Cynllun Iaith yn:

- derbyn sêl bendith y sefydliad fel corff;
- cynnwys datganiadau diamwys o nodau ac amcanion y brifysgol;
- disgrifio'r union gamau a gymerir i ddarparu gwasanaethau gweinyddol ac academiaidd yn y ddwy iaith;
- cynnwys amserlen a chynllun gweithredu ar gyfer y targedau a osodir;
- manylu ar ddulliau gweithredu, arolygu a gwerthuso;
- nodi pwy fydd yn gyfrifol am arolygu gweithrediad y Cynllun cyflawn;
- nodi'r unigolion a'r pwyllgorau fydd yn gyfrifol am weithredu pob targed;
- seiliedig ar archwiliad o'r defnydd a wneir o ddwyieithrwydd a'r adnoddau dwyieithog, dynol ac fel arall o fewn y sefydliad, gan weithredu mewn dull sy'n seiliedig ar fesur ac ymateb i'r galw;
- cael ei ddosbarthu'n eang ymysg mudiadau a sefydliadau yn yr un maes fel arwydd o fwriad.

### **1.3 Egwyddorion Sylfaenol**

Pwrpas trin y Gymraeg a'r Saesneg 'ar y sail eu bod yn gyfartal' yw rhoi hawl i'r cyhoedd – yn unigolion, grwpiau neu sefydliadau – gyfathrebu'n ysgrifenedig ac yn llafar â'r Brifysgol yn eu dewis iaith, boed yn Gymraeg neu Saesneg, ac i dderbyn gwasanaeth yn yr iaith honno oddi wrth y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu pedair egwyddor a fydd yn llywio ei bwriad i ddarparu gwasanaeth sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, sef:

- cynnig i'r cyhoedd yng Nghymru yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â'r sefydliad;
- cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio ei ddewis iaith yn fater o arfer da, nid goddefiad;
- cydnabod y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfa anfanteisiol.

Ystyr 'y cyhoedd' yng nghyd-destun yr egwyddorion hyn yw unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sy'n dod i gysylltiad â'r Brifysgol, ac mae'n cynnwys staff, darpar fyfyrwyr a myfyrwyr sy'n gofrestrdedig yn y Brifysgol. Mae'r Cynllun hwn yn disgrifio sut y mae'r Brifysgol am fynd ati i weithredu'r egwyddorion hyn.

## **2. Cefndir**

### **2.1 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn brifysgol newydd i Gymru, yn brifysgol sy'n adeiladu ar ragoriaethau Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Bydd y Brifysgol yn ymateb i weledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch trwy ddarparu rhaglenni a gwasanaethau dwyieithog yn gysylltiedig ag ysgolheictod, trosglwyddo gwybodaeth, arloesi ac ymchwil, rhaglenni a gwasanaethau a fydd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i les economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a deallusol Cymru.

Bydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn gatalydd ar gyfer newid trawsffurfiol yn Ne Orllewin Cymru. Bydd yn gweithredu fel hwb strategol ar gyfer fframwaith confederal rhanbarthol a fydd yn pontio addysg ysgol ac addysg bellach ynghyd ag addysg gymunedol oedolion awdurdodau lleol. Bydd yn cynnig model rhanbarthol ar gyfer datblygu a darparu llwybrau dysgu integredig a fydd yn trosgynnu ffiniau addysgol a sicrhau dilyniant rhanbarthol. Drwy gydweithio â cholegau addysg bellach, ysgolion, awdurdodau lleol yn ogystal â Sefydliadau Addysg Uwch eraill a chyflogwyr yn y rhanbarth fe fydd yn datblygu darpariaeth sy'n berthnasol i anghenion Cymru a'i chymunedau.

### **2.2 Cenhadaeth Sefydliadol**

Trawsnewid addysg – trawsnewid bywydau.

Mae modd derbyn copi cyflawn o ddatganiad cenhadaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant trwy gysylltu'n ysgrifenedig â'r sefydliad.

### **2.3 Strwythur a Darpariaeth**

Mae strwythur pob un sefydliad addysg uwch yn un sy'n newid wrth iddo ymateb i ofynion y cynulleidfaoedd a wasanaethir ganddo. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ymrwmo y bydd y Brifysgol bob amser yn sicrhau bod:

- Yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn ganolog i strwythur y Brifysgol ac wrth wraidd ei chenhadaeth;
- Yr iaith Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer swydd Is-Ganghellor y Brifysgol ac y bydd o leiaf hanner Uwch Gyfarwyddiaeth y Brifysgol yn medru'r Gymraeg.

Yr Is-Ganghellor yw rheolwr a phrif weithredwr y Brifysgol. Fe'i cefnogir ar yr Uwch Gyfarwyddiaeth gan bedwar Dirprwy Is-Ganghellor.

Cartrefir holl weithgarwch academiaidd y Brifysgol o'r flwyddyn academiaidd 2014/15 ymlaen o fewn pum cyfadrn y mae pob un yn cynnwys nifer o ysgolion fel a ganlyn:

#### **Y Gyfadrn Pensaerniaeth, Cyfrifiadura a Pheirianeg**

Ysgol Cyfrifiadura Cymhwysol

Ysgol Peirianeg Fodurrol

Ysgol Pensaerniaeth, Amgylcheddau Adeiledig a Naturiol

Ysgol Logisteg a Pheirianeg Gweithgynhyrchu

#### **Y Gyfadrn Celf a Dylunio**

Ysgol Dylunio a Chelf Gymhwysol

Ysgol Celf Gain a Ffotograffiaeth

Ysgol Ffilm a'r Cyfryngau Digidol

Ysgol Cyfathrebu Gweledol

#### **Y Gyfadrn Busnes a Rheolaeth**

Ysgol Busnes, Cyllid a Rheolaeth

Ysgol Twristiaeth a Lletygarwch

Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored

Sefydliad Dysgu Seiliedig ar Waith Cymru

#### **Y Gyfadrn Addysg a Chymunedau**

Canolfan Addysg Athrawon DOC

Ysgol Addysg y Blynyddoedd Cynnar

Ysgol Cyfiawnder a Chynhwysiant Cymdeithasol

Ysgol Seicoleg a Chwnsela

Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd

#### **Cyfadrn y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio**

Ysgol Archaeoleg, Hanes ac Anthropoleg

Ysgol y Clasuron

Ysgol Diwinyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol ac Astudiaethau Islamaidd

Ysgol Astudiaethau Diwylliannol

Ysgol y Celfyddydau Perfformio

Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau mewn amrywiaeth o feysydd sy'n berthnasol i'r cyfadrannau hyn, ac wrth i ofynion myfyrwyr neu bartneriaid y Brifysgol newid, bydd darpariaeth y Brifysgol yn ddigon hyblyg i addasu er mwyn diwallu'r anghenion.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ymrwmo y bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod bob amser yn darparu cyrsiau addas sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu ddwyieithrwydd.

Mae amrediad o gymwysterau yn cael eu darparu gan y Brifysgol gan gynnwys Tystysgrifau Addysg Uwch, Graddau Sylfaen, Graddau BA/BSc, Tystysgrifau a Diplomâu Graddedig, MA/Msc, M.Phil a Ph.D.

Mae Cynllun Strategol sefydliadol 2013 – 2017 yn nodi bod gan y Brifysgol 'ymrwymiad strategol clir i Gymru, gan gyfrannu at ei hetfeddiaeth ddwyieithog fel un o brif ddarparwyr addysg uwch Gymraeg a dwyieithog'.

## **2.4 Staffio**

Mae Adran A: Cynllun Gweinyddol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cynnwys manylion llawn am broffil staff y sefydliad.

## **2.5 Cydweithio â sefydliadau eraill**

### Colegau Addysg Bellach:

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cydnabod y bydd hyrwyddo cydweithio agos rhyngddi a sefydliadau addysgol eraill yn flaenoriaeth amlwg iddi os yw i wireddu ei gweledigaeth hir dymor. Yn ogystal â datblygu partneriaeth gyfreithiol â Cholegau Addysg Bellach Sir Gâr a Cheredigion mae'r Brifysgol hefyd wedi datblygu perthynas waith agos â Choleg Penfro a Choleg Gŵyr Abertawe, gan amlinellu gweledigaeth strategol ar gyfer creu strwythur grŵp addysgol rhanbarthol newydd a fydd yn cyflwyno newid trawsffurfiol yn Ne Orllewin Cymru. Mae'r datblygiad yn cynnig fframwaith radical ar gyfer darparu addysg ôl-16 gan greu isadeiledd grŵp addysgol newydd a fydd yn cynnig ystod o lwybrau addysgol ystyrllon, gan gyfoethogi'r dewis i fyfyrwyr a hyrwyddo darpariaeth addysgol ar y cyd. Bydd Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a Dwyieithog newydd y Brifysgol yn rhoi sylw dyledus i'r partneriaethau hyn gan sefydlu llwybrau dilyniant ystyrllon trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer efrydwyr y rhanbarth.

### Ysgolion y rhanbarth:

Law yn llaw â hyn sefydlwyd partneriaeth agos trwy fenter AUR: Anelu'n Uwch at Ragoriaeth – â holl ysgolion uwchradd siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin yn ogystal â holl ysgolion dwyieithog De a Chanolbarth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn un blaengar a chwbl unigryw a gwelwyd dros 1800 o fyfyrwyr ôl-16 ysgolion dwyieithog a cholegau addysg bellach De a De Orllewin Cymru yn cofrestru arno yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

### Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

Cynrychiolir y Brifysgol hefyd ar holl bwyllgorau canolog y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Gwêl y Brifysgol ei hun yn un o brif bartneriaid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac fe'i cynrychiolir ar holl bwyllgorau canolog y sefydliad hwnnw. Sefydlwyd cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y Brifysgol ac ar hyn o bryd (Mawrth 2014) mae 115 o staff a 401 o fyfyrwyr yn aelodau. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cangen Campws Abertawe yn ystod 2013/14 hefyd a'r bwriad yw adeiladu ar hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf.

### S4/C:

Yn dilyn penderfyniad diweddar awdurdod S4/C i adleoli pencadlys y Sianel i Gaerfyrddin - a hynny ar dir y Brifysgol - bydd cyfle i'r sefydliad ddatblygu partneriaeth weithredol â'r sianel a chyda nifer sylweddol o bartneriaid eraill a fydd yn cyd-leoli. Bydd y datblygiad hwn yn gatalydd ar gyfer hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg ar draws y brifysgol a'r rhanbarth.

### Y Cynllun Sabothol:

Mae'r Cynllun Sabothol i Athrawon a ddarperir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gweithredu dan nawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun hwn yn rhan greiddiol a chanolog o Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y Llywodraeth.

O fis Medi 2014 ymlaen, trwy gytundeb tendr, gall y Brifysgol nodi ei bod yn brif ddarparwr cyrsiau ac adnoddau cyrsiau'r Cynllun Sabothol. Bydd y Brifysgol yn gyfrifol am y ddarpariaeth lefel Mynediad i Gynorthwywyr Dosbarth, y ddarpariaeth lefel Sylfaen i athrawon a'r ddarpariaeth lefel Uwch i athrawon a darlithwyr y sector addysg bellach ar draws de orllewin a chanolbarth Cymru. Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn cymedroli ansawdd holl gyrsiau'r Cynllun Sabothol yn genedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, bydd y Brifysgol hefyd yn gyfrifol am ddatblygu adnoddau addysgol o'r newydd ar gyfer y Cynllun Sabothol yn genedlaethol ynghyd â diweddarau'r adnoddau sy'n bodoli'n barod.

Fel datganiad o'i bwriad i ddwyieithogi ei champysau yn Abertawe, y mae'r Brifysgol wedi penderfynu cartrefu rhai o'r cyrsiau sy'n perthyn i'r Cynllun Sabothol ar ei champws yn Townhill, Abertawe.

## **3. Cyflwyno Gwasanaethau**

Mae'r gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog a ddarperir gan y Brifysgol yn eang ac amrywiol. O ganlyniad, mae'r Brifysgol yn ymrwmo i:

- sicrhau bod ganddi drefniadaeth gadarn a phatrwm staffio digonol ar gyfer sicrhau gwasanaeth cyfieithu;
- sicrhau bod ganddi raglen briodol ac amrywiol o ddarpariaeth gloywi iaith at ddibenion cefnogi cyrsiau academaidd, hyfforddiant galwedigaethol a Chymraeg i Oedolion;
- sicrhau ei bod yn flaengar wrth ddarparu cyrsiau a hyfforddiant ym maes dwyieithrwydd ac addysgu dwyieithog;
- sicrhau ei bod yn cynyddu cyfranogiad grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli;
- cynnig arlwy gelfyddydol sy'n adeiladu ar draddodiad hir ym maes cerddoriaeth a drama;



- paratoi deunyddiau academiaidd a galwedigaethol sy'n diwallu anghenion y cymunedau a wasanaethir ganddi, boed y rheiny'n fyfyrwyr neu'n bartneriaethau ar lefel genedlaethol;
- cynnig gwasanaethau ymgynghorol o'r safon uchaf ym maes y Gymraeg a dwyieithrwydd.

#### **4. Polisiâu a Mentrau Newydd**

Mae'r Brifysgol, fel pob sefydliad addysg uwch arall:

- yn cynllunio ac yn arwain ym maes ehangu ei darpariaeth cyfrwng Gymraeg/dwyieithog ei hun;
- yn llunio rhaglenni newydd yn ôl gofynion y farchnad, boed y rheiny'n rhai cymdeithasol neu economaidd;
- yn ymateb i ofynion newydd a gwahanol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn y blaen.

Mae'r Cynllun hwn yn ymwneud â'r ddarpariaeth amser llawn, rhan amser a rhaglenni rhyddfrait.

Mae'r Brifysgol yn asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiâu a mewnbwn newydd o ganlyniad i ddatblygiadau, boed y rheiny'n ddatblygiadau gweinyddol neu'n faterion academiaidd. I'r perwyl hwn, mae Senedd y Brifysgol a'r Uwch Gyfarwyddiaeth yn sicrhau bod meini prawf pob polisi yn cynnwys y Gymraeg a materion dwyieithrwydd.

Mae'r Brifysgol hefyd yn:

- ymrwymo i ymgynghori â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw gynlluniau neu fwriadau a fydd yn effeithio ar y Cynllun Iaith neu'n effeithio ar gynlluniau sefydliadau cyhoeddus eraill;
- ymrwymo i beidio â newid y Cynllun Iaith heb ymgynghori â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a dod i gytundeb â hi.

#### **5. Sicrhau Ansawdd wrth gyflwyno gwasanaethau a rhaglenni yn Gymraeg**

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ymrwymo i osod, cyhoeddi ac arolygu safonau'r gwasanaeth yn gyson wrth ddelio â'r cyhoedd ac â'r myfyrwyr yn Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr un statws gweinyddol i'r ddwy iaith gan sicrhau'r adnoddau priodol er mwyn cyfieithu o'r naill iaith i'r llall lle bo angen.

Mae ansawdd y cyrsiau Gymraeg yn cael ei ddiogelu yn yr un ffordd â'r cyrsiau Saesneg, drwy Gyfundrefn Rheoli Ansawdd gydnabyddedig y Brifysgol.

##### **5.1 Y trefniadau gweinyddol y bydd y Brifysgol yn eu cymryd i hwyluso'r cynlluniau**

Y Senedd fydd â'r cyfrifoldeb am bob agwedd ar weithrediad y Cynlluniau.

Bydd y Senedd yn derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol gan y Pwyllgor Materion Cymraeg.

Bydd dau Weithgor Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg yn gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg, sef y Cynllun Craidd, y Cynllun Gweinyddol a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith – un gweithgor ar gyfer campysau Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan ac un arall ar gyfer campysau Abertawe. Mae aelodaeth y Gweithgorau yn cynnwys trawsdoriad o Benaethiaid Unedau ac unigolion fydd wedi'u hadnabod fel Pencampwyr/Hwyluswyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog oddi fewn i'w hunedau. Anelir at sicrhau cydbwysedd o safbwynt cefndir a hyfedredd ieithyddol. Mae'n fwriad hefyd gan y Brifysgol wahodd unigolyn/unigolion allanol a chanddynt brofiad perthnasol o weinyddiaeth sefydliadau dwyieithog i gyfarfodydd y Pwyllgor hwn.

Y Pwyllgor Materion Cymraeg fydd yn gyfrifol am fonitro a chynllunio'r Cynllun Strategol Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ar lefel feunyddiol. Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys trawsdoriad o Ddeoniaid Cyfadran, Penaethiaid Ysgol ac unigolion fydd wedi eu hadnabod fel Pencampwyr/Hwyluswyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog oddi fewn i'r cyfadranau. Anelir at sicrhau cydbwysedd o safbwynt cefndir a hyfedredd ieithyddol. Gwahoddir cynrychiolydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyfarfodydd y Pwyllgor hefyd.

Mae'r atebolrwydd uchod yn sicrhau y bydd y Cynlluniau yn dwyn awdurdod llawn y Brifysgol wrth eu gweithredu.

Deon y Gyfadran Addysg Athrawon, fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Gymraeg fydd yn gyfrifol am bob un agwedd strategol ar y ddau Gynllun. Bydd hefyd yn gyfrifol am weithrediad y Cynlluniau ar draws y sefydliad ac am greu ymwybyddiaeth ymhlith holl aelodau'r staff ynglŷn â sut mae gweithredu'r Cynlluniau a'r hyn a ddisgwyllir ganddynt.

Cydlynnydd Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol fydd yn gyfrifol am arolygu gweithrediad y Cynllun Iaith o ddydd i ddydd ar gampysau Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan gyda chymorth Penaethiaid Unedau penodol, fel sydd wedi'i nodi yn Adran B: Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Swyddog Iaith Gymraeg y Brifysgol fydd yn gyfrifol am y cynllun o ddydd i ddydd ar gampysau Abertawe gyda chymorth Penaethiaid Unedau penodol, fel sydd wedi'i nodi yn Adran B: Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fydd yn gyfrifol am agweddau gweithredol ar y Cynllun Strategol Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog o ddydd i ddydd.

Mae gweithrediad y Cynlluniau hyn yn dibynnu'n llwyr ar gydweithrediad llawn a pharod rhwng unedau ac Ysgolion unigol a'r Swyddogion a nodir uchod a fydd yn gweithredu'n agos gyda hwyluswyr/pencampwyr yr unedau/ysgolion unigol ac yn adrodd yn uniongyrchol i Ddeon y Gyfadran Addysg Athrawon.

Unwaith y flwyddyn, bydd pob Cyfadran yn cyflwyno adroddiad ar gyflawniadau'r flwyddyn i'r Gweithgor perthnasol. Bydd y rhain yn cynnwys:

- (i) pob datblygiad, ffaith, ystadegyn perthnasol
- (ii) cyrhaeddiad yn erbyn targedau'r flwyddyn gyfredol
- (iii) cynllun datblygu/gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Trafodir agweddau perthnasol ar yr adroddiadau gan y Pwyllgorau. Yn dilyn hyn bydd Deon y Gyfadran Addysg Athrawon yn cyflwyno adroddiad cyfansawdd ar weithrediad y Cynlluniau i'w drafod ymhellach gan y Senedd. Cyflwynir adroddiad swyddogol y Brifysgol i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Mawrth bob blwyddyn yn unol â chytundeb Grŵp Swyddogion Iaith Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Brifysgol yn awyddus i sicrhau ei bod yn gweithredu pob agwedd ar ei Chynlluniau yn drwyadl ac yn dryloyw. I'r perwyl hwn, gwahoddir aelodau allanol i gyfranogi yn ei thrafodaethau strategol, fel sydd wedi'i nodi uchod.

Mae'r Brifysgol yn cyflogi tîm o gyfieithwyr i ymgymryd â gwaith cyfieithu swyddogol y sefydliad. Mae'r cyfieithwyr hyn yn cyfieithu ar y pryd yn ogystal â chyfieithu deunydd print.

Ar adegau lle nad oes modd i gyfieithwyr mewnol y Brifysgol ymgymryd â'r llwyth gwaith i gyd, cysylltir ag asiantaethau neu unigolion allanol sy'n gymwys i ymgymryd â'r gwaith.

## **5.2 Cytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â thrydydd parti ac sy'n gysylltiedig â chynnig gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, (gan gynnwys gwasanaethau a gaiff eu 'contractio allan') yn gyson â thelerau'r Cynllun Iaith.**

Pan fydd unrhyw wasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael ei roi trwy gontract i asiantaeth neu gontractwr y tu allan i'r Brifysgol ei hun, byddir yn sicrhau bod yr asiantaeth, y contractwr neu unrhyw is-gontractwr yn gweithredu'n gyson â'r elfennau perthnasol yn y Cynllun Iaith, ac yn adrodd yn ôl yn rheolaidd ar eu perfformiad.

Mae dogfennau tendro, manylebau, dogfennau contract a chytundebau yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Iaith hwn a lle bo hynny'n briodol, gellir gofyn am ddatganiadau o sut y cyflwynir y gwasanaethau hynny.

Byddir yn arolygu'r gwaith a wneir gan asiantaethau, contractwyr ayyb i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rhannau perthnasol y Cynllun Iaith hwn.

Mewn achosion lle bydd trydydd parti'n darparu gwasanaeth i fyfyrwyr sy'n dilyn eu cwrs/cyrsiau trwy'r Gymraeg byddir yn sicrhau y bydd yn gyson â'r Cynllun Iaith.

Mae'r Brifysgol ei hun hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Brifysgol yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

- i) Pan fo'r Brifysgol yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith.
- ii) Pan fo'r Brifysgol yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbwn y Brifysgol i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd y Brifysgol yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.
- iii) Pan fo'r Brifysgol yn gweithredu fel rhan o gonsortiw, bydd yn annog y consortiw i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortiw bydd y Brifysgol yn gweithredu'n unol â'i Chynllun Iaith.
- iv) Pan fo'r Brifysgol yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisiâu iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Brifysgol yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

### **5.3 Arolygu Gweithredu'r Cynllun a Chymharu Perfformiad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant â'r Safonau**

- i) Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae'r Gweithgorau Monitro'r Cynllun Iaith a'r Pwyllgor Materion Cymraeg yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun Iaith a'r atodiadau perthnasol yn flynyddol. Gwneir hyn drwy gwblhau Adroddiad Monitro Blynyddol, yn unol â'r gweithdrefnau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer y sector addysg uwch.
- ii) Ar ddiwedd y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun Iaith, bydd y Brifysgol yn arolygu ac yn gwerthuso ei pherfformiad dros gyfnod gweithredu'r Cynllun gan baratoi at ddyfodiad y Safonau.
- iii) Ceir trefn gan y Brifysgol i ddelio ag anfodlonrwydd ynglŷn â'r Cynllun. Trwy'r un drefn gall unrhyw un gynnig awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth dwyieithog mewn unrhyw ffordd. Sianelir unrhyw sylwadau neu gwynion trwy Gydlynnydd Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol.
- iv) Bydd y Brifysgol o dro i dro yn ceisio barn y cyhoedd drwy arolygon barn. Bydd hefyd yn ceisio barn y myfyrwyr yn flynyddol ar ei gwasanaeth dwyieithog ar ffurf holiaduron.

### **5.4 Gosod Targedau ar gyfer Gweithredu'r Cynllun Iaith**

Gosodir targedau pendant ar gyfer gweithredu'r Cynllun Iaith a fydd yn nodi pa fesurau sydd yn weithredol eisoes, pa rai y gellir eu gweithredu'n syth a pha rai sy'n dargedau tymor hir yn Adran B: Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

## 5.5 Cyhoeddusrwydd

Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i roi copi electronig o'r Cynllun Iaith hwn ar ei gwefan, a bydd copïau caled ar gael i'r cyhoedd ar gais. Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn parhau i hysbysebu natur ddwyieithog y sefydliad a'r cyfleoedd a geir ar gyfer rhaglenni dwyieithog. Defnyddir amrywiol dulliau ar gyfer y cyhoeddusrwydd hwn, e.e. prospectws, hysbysebion, ymgyrchoedd teledu, gwefan y Brifysgol. Ceir manylion pellach yn Adran A: Cynllun Gweinyddol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

## **ADRAN A: Cynllun Gweinyddol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

Mae'r adran hon yn ymdrin yn bennaf ag agweddau ar weinyddu'r sefydliad. Bydd gan y Cynllun Strategol Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ei dargedau ei hun ac fe ychwanegir y ddogfen honno at y cynllun iaith fel atodiad.

Mae'r adran hon yn cynnwys datganiadau polisi craidd ar y cyfleusterau sydd angen eu datblygu a'u grymuso'n barhaus er mwyn i unigolion allu ymwneud â'r Brifysgol ar bob achlysur ac at bob pwrpas yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis. Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i gynnal y safonau sydd wedi'u nodi isod, ac maent yn weithredol oni noder yn wahanol yn Adran B.

### **PROFFIL STAFFIO**

Ar hyn o bryd, cyflogir 2101 o staff ar brif gampysau'r Brifysgol yn Abertawe, Caerfyrddin a Llambled fel a ganlyn:

| <b>Lleoliad</b> | <b>Llawm-<br/>amser</b> | <b>Rhan-<br/>amser</b> |
|-----------------|-------------------------|------------------------|
| Abertawe        | 386                     | 928                    |
| Caerfyrddin     | 262                     | 284                    |
| Llambled        | 91                      | 150                    |
| Cyfanswm        | 739                     | 1362                   |

Yn ogystal mae nifer fechan o staff (tua 40) yn gweithio ar gampysau arbenigol yng Nghaerdydd a Llundain:

| <b>Lleoliad</b> | <b>Llawm-<br/>amser</b> | <b>Rhan-<br/>amser</b> |
|-----------------|-------------------------|------------------------|
| Caerdydd        | 3                       | 4                      |
| Llundain        | 12                      | 21                     |
| Cyfanswm        | 15                      | 25                     |

Cyfanswm y rhain i gyd yw 2141 o staff, gyda 754 yn llawn-amser a 1387 yn rhan-amser.

Yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynllun hwn, bydd y Brifysgol yn cynnal arolwg manwl o'i holl staff gan lunio proffil ieithyddol ar gyfer ei staff gweinyddol. Yn ystod oes y Cynllun, bydd y Brifysgol yn adnabod unigolion oddi fewn i bob Uned fydd yn gweithredu fel Hwyluswyr ac yn sicrhau argaeledd ei gwasanaethau dwyieithog er mwyn galluogi'r Brifysgol i wireddu'r ymrwymadau gweinyddol gweithredol sydd wedi'u nodi isod.

## **CYFATHREBU Â'R CYHOEDD**

### **1. Gohebu'n ysgrifenedig ar bapur ac yn electronig â'r cyhoedd**

Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Ni fydd gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi (targed o 10 diwrnod gwaith). Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb a'i llofnodi yn Gymraeg.

Mae'r Brifysgol yn cychwyn gohebu yn Gymraeg gyda'r rhai y mae'n well ganddynt ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg, y rhai y siaradwyd wyneb yn wyneb â hwy, neu dros y ffôn, yn Gymraeg yn y gorffennol.

Mae gohebiaeth swyddogol ysgrifenedig a anfonir gan weinyddiaeth y Brifysgol at unigolion yng Nghymru yn yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr ohebiaeth wreiddiol (lle mae hynny'n wybyddus); fel arall mae'n ddwyieithog.

Mae'r brifysgol yn ymwybodol o wahaniaethau ieithyddol rhwng ei gwahanol gampysau ar hyn o bryd. Y bwriad yw gosod targedau gwahaniaethol yn y tymor byr, yn bennaf yn achos campysau Abertawe, ac fe adlewyrchir hyn yn y cynllun gweithredu. Y nod, fodd bynnag, yw sicrhau bod y campysau llai Cymraeg yn raddol yn dod i gynnig yr un gwasanaethau â'r rhai mwy Cymraeg, ac nid fel arall.

Sicrheir bod iaith gohebiaeth answyddogol gan aelod o staff at fyfyrwr neu grŵp o fyfyrwyr yn ôl dymuniad pob myfyrwr neu'r ddealltwriaeth sydd rhyngddynt.

Wrth gofrestru, mae'r Brifysgol yn gofyn ym mha iaith y bydd myfyrwyr yn dymuno derbyn gohebiaeth swyddogol gan barchu'r dymuniad hwnnw ym mhob gohebiaeth swyddogol sy'n dod i'r categori hwn.

Mae pob gohebiaeth gorfforaethol swyddogol (e.e. datganiadau) a gychwynnir gan weinyddiaeth y Brifysgol at awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae gohebiaeth rhwng y weinyddiaeth ganolog ac aelodau unigol staff y Brifysgol yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dymuniad pob aelod unigol o'r staff. Mae'r amseroedd cydnabod ac ateb gohebiaeth yn y naill iaith a'r llall yr un fath.

### **2. Cyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn**

Mae'r Brifysgol yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd a bydd staff y switsfwrdd canolog ac adrannol, ar ôl derbyn yr hyfforddiant priodol mewn rhai achosion, yn ateb pob galwad ffôn yn ddwyieithog.

Os yw'r alwad yn cael ei hateb gan unigolyn dwyieithog, neu'n cael ei throsglwyddo iddo/iddi, yna sicrheir bod pob unigolyn dwyieithog yn ei gwneud yn amlwg wrth ateb ei fod yn ddwyieithog. Cynhelir y drafodaeth wedyn yn newis iaith yr un sy'n galw.

Os yw'r alwad yn cael ei chyfeirio at aelod o staff Uned/Ysgol benodol, neu'n cael ei throsglwyddo iddo/iddi, yna sicheir bod yr unigolyn yn ateb â chyfarchiad dwyieithog. Os bydd yr un sy'n galw am siarad yn Gymraeg, yna dylid trosglwyddo'r alwad i unigolyn dwyieithog o fewn yr Uned/Ysgol neu fan arall o fewn y Brifysgol.

Mewn Uned/Ysgol lle ceir aelodau staff dwyieithog ond nad ydynt ar gael ar y pryd, trefnir bod rhywun o'r fath yn ffonio'n ôl, oni bai fod yr un sy'n galw'n dymuno trafod yn Saesneg.

Mewn Uned/Ysgol lle nad oes neb ar y pryd yn ddwyieithog, esbonnir y sefyllfa'n gwrtais a chynigir i'r un sy'n galw gael siarad â swyddog dwyieithog o Uned/Ysgol arall, neu fe ofynnir a yw'r un sy'n galw yn fodlon siarad â rhywun di-Gymraeg. Gellir hefyd gynnig y dewis i'r unigolyn i ysgrifennu'n Gymraeg at y Brifysgol a derbyn ymateb ysgrifenedig yn yr un iaith.

Anogir dysgwyr i arfer eu Cymraeg wrth gyfarch ac ateb yn ddwyieithog.

Bydd y cyfarchion a'r cyfarwyddiadau sydd ar bob peiriant ateb swyddogol yn ddwyieithog.

### **3. Cyfarfodydd cyhoeddus, darlithoedd cyhoeddus, gwrandawiadau ac unrhyw gyfarfodydd cyfreithiol**

Mae croeso i staff y Brifysgol a'r cyhoedd siarad Cymraeg neu Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus sy'n cael eu trefnu gan y Brifysgol i ymgynghori gyda'r cyhoedd. Mae offer cyfieithu ar y pryd (sefydlog neu symudol) yn cael ei ddarparu yn y cyfarfodydd hyn gyda'r posteri neu'r gwahoddiadau'n dynodi bod yr offer ar gael a bod croeso iddynt siarad yn eu dewis iaith.

Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i sicrhau patrwm lle bydd teitl unrhyw ddarlith gyhoeddus yn yr iaith y'i traddodir ac y bydd yr holl hysbysrwydd arall yn Gymraeg a Saesneg. Uniaith Gymraeg neu Saesneg fydd y darlithoedd hyn oni nodir yn wahanol.

Y mae gan unrhyw aelod o'r cyhoedd, staff neu fyfyrwr sy'n rhan o wrandawriad disgyblu, boed hynny fel y sawl a gyhuddir, neu fel tyst, yr hawl i ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl ei ddewis ym mhob cam o'r gwrandawriad. Bydd y Cadeirydd/Cynullydd yn gofyn ymlaen llaw ym mha iaith y dymuna pob un sy'n cymryd rhan gyfrannu a phenderfynu a oes angen cyfieithydd ai peidio.

### **4. Cyfarfodydd eraill gydag aelodau o'r cyhoedd a fydd yn ymweld â'r Brifysgol**

Mae staff sy'n derbyn y cyhoedd i'r Brifysgol yn gwneud hynny'n ddwyieithog.

Yn y Brif Dderbynfa a'r Unedau/Ysgolion canolog e.e. Y Gofrestrfa, Adran Adnoddau Dynol, y Ganolfan Adnoddau Dysgu, sicheir bod rhywun addas ar gael (neu y gellir galw arno/arni) i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd ddelio â'r sefydliad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gofynnir i'r cyhoedd nodi ymlaen llaw ym mha iaith y dymunant drafod.



Mewn Ysgolion/Unedau lle nad yw hynny'n bosibl, gan nad oes staff dwyieithog yno, mae'r Brifysgol yn hyfforddi derbynyddion i gyfarch yn ddwyieithog ac i esbonio nad oes neb dwyieithog yn yr Ysgol/Uned i ddelio â'r mater.

Gellir cynnig rhywun o Ysgol/Uned arall os yw hynny'n dderbyniol i'r unigolyn, neu gyfathrebu trwy'r Saesneg. Mae'r Brifysgol yn anelu, yn y tymor hir, at sicrhau bod rhywrai dwyieithog ar gael ym mhob Ysgol academaidd trwy ddsbarthiadau Cymraeg a/neu bolisi penodi.

### **5. Delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill, e.e. gwefan, cysylltiadau teleffideo, systemau cyfarch cyhoeddus**

Mae holl dudalennau gwe corfforaethol ac adrannol y sefydliad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac maent yn gydradd o ran cynnwys a thestun ac yn eu diwyg, eu hansawdd a'u cywirdeb. Mae pob darn o wybodaeth newydd yn cael ei osod ar y wefan ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Wrth ddatblygu a chynnal ei bresenoldeb ar-lein, y mae'r sefydliad wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r safonau a amlinellir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ei dogfen 'Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg'.

Wrth gyfathrebu â'r Brifysgol mewn ffyrdd eraill, e.e. teleffideo, mae modd trefnu bod y cyhoedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Yn yr un modd, sicrhair y bydd unrhyw negeseuon cyhoeddus ar ran y Brifysgol a drosglwyddir trwy gyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook yn gyson ddwyieithog.

### **6. Gweithredu'r Cynllun Iaith â Staff y Brifysgol yn Fewnol**

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer cyfarfodydd ei phrif bwyllgorau/fforymau penderfynu. Ceir rhestr o'r pwyllgorau hyn yn Adran B, Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ac adolygir y sefyllfa'n flynyddol mewn ymgynghoriad â staff a chadeiryddion prif bwyllgorau'r Brifysgol.

Mewn pwyllgorau lle nad oes gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael, gellir gwneud trefniadau eraill anffurfiol ar gyfer cyfieithu, e.e. y cadeirydd yn cyfieithu neu'n sicrhau bod aelod arall o'r pwyllgor yn fodlon cyfieithu neu grynhoi.

Gohebiaeth Fewnol Gysylltiedig

Mae pob memorandwm, llythyr, agenda ayyb. gan weinyddiaeth ganolog y Brifysgol, ac sy'n cyfarch y staff yn gyffredinol, yn ddwyieithog.

Os bydd gohebiaeth â'r staff yn cynnwys atodiadau, papurau pwyllgor ayyb. a luniwyd gan gyrrff a/neu sefydliadau allanol derbynnir hwy yn yr iaith wreiddiol ac ni ddisgwylir iddynt gael eu cyfieithu. Ond gwneir y cyrrff hynny'n ymwybodol o'u dyletswydd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993.

Gall gohebiaeth rhwng y weinyddiaeth ganolog ac unigolion ddigwydd yn yr iaith sy'n cael ei ffafrio gan yr unigolyn neu'n ddwyieithog. Sefydlir cronfa ddata yn nodi'r iaith sy'n cael ei ffafrio gan aelodau unigol o'r staff.

*Y Fewnwyd*

Bydd pob cyhoeddiad a hysbysiad ar dudalen gartref staff a myfyrwyr y Brifysgol yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

## **DATBLYGU ETHOS DWYIEITHOGY SEFYDLIAD**

### **7. Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad yng Nghymru**

Mae hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yng Nghymru yn ddwyieithog pa le bynnag y'i dangosir. Mae hyn yn cynnwys enw'r Brifysgol a'r Unedau/Ysgolion o'i mewn, logo, penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, taflenni ffacs, cardiau busnes, gwahoddiadau ac eitemau tebyg.

Mae gwybodaeth ac enw'r Brifysgol yn dilyn yr un patrwm lle bynnag y caiff ei arddangos yn barhaol, boed hynny ar arwyddion, cerbydau, ysgrifen ar adeilad, mewn arddangosfa neu ar gyhoeddiadau. Ym mhob achos bydd y Gymraeg yn dod yn uchaf neu'n gyntaf.

### **8. Arwyddion Gwybodaeth o fewn ffiniau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

Mae'r teitlau ar adeiladau ac eiddo'r Brifysgol sydd ag enwau swyddogaethol, yn Gymraeg a Saesneg ac mae'r adeiladau sy'n coffáu unigolion ar y ffurf 'Adeilad....' neu 'Neuadd....' yn unig.

Mae'r arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd swyddogol yn ddwyieithog. Gellir eithrio gwybodaeth sy'n benodol ar gyfer myfyrwyr tramor yn unig.

Mae unrhyw arwyddion eraill e.e. arwyddion priffyrdd neu arwyddion gwybodaeth gyhoeddus, yn ddwyieithog.

Ym mhob achos, mae'r ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, safon eglurder ac amlygrwydd, a bydd pob arwydd newydd yn gwbl ddwyieithog.

### **9. Cyhoeddi a phrintio deunydd sydd wedi ei gyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru**

Bydd pob cyhoeddiad a deunydd sydd wedi'i gyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Y drefn arferol fydd cynhyrchu fersiynau dwyieithog o fewn yr un ddogfen. Mae hynny'n cynnwys amrywiaeth o ddeunydd printiedig e.e. posteri, sieciau, bydlenni, derbynebau, anfonebau, mapiau ayyb.

Mewn achosion prin lle bydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd.

Cynhyrchir Prosbectws Dwyieithog a Saesneg. Mae'r Brifysgol yn nodi'n glir y cyrsiau hynny y mae modd eu hastudio naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae prif gyhoeddiadau'r Brifysgol megis yr Adroddiad Blynyddol yn ddwyieithog. Ceir rhestr o gyhoeddiadau dwyieithog yn Adran B: Cynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

### **10. Ffurflenni a deunydd esboniadol sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru**

Mae unrhyw ffurflenni a gynhyrchir gan y Brifysgol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru a'r deunydd esboniadol fydd yn mynd gyda'r rhain yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni gwybodaeth i fyfyrwyr am ddechrau'r tymor, cofrestru, gwybodaeth am gyrsiau ayyb.

Y drefn arferol fydd cynhyrchu fersiynau dwyieithog. Mewn achosion lle mae angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd a'r un mor rhwydd i'w cael. Cânt eu dosbarthu yr un pryd a byddant yn cynnwys nodyn sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael hefyd yn yr iaith arall.

### **11. Hysbysiadau i'r wasg sydd i'w dosbarthu yng Nghymru**

Rhyddheir hysbysiadau corfforaethol swyddogol i'r wasg a'r cyfryngau yn ddwyieithog yng Nghymru.

Bydd unrhyw hysbysiadau neu ddatganiadau a ryddheir i'r wasg neu'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog .

### **12. Deunydd cyhoeddusrwydd, ymgyrchoedd hysbysebu, ymgyrchoedd marchnata a dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyhoeddusrwydd yng Nghymru**

Mae deunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir gan y Brifysgol ar gyfer ymgyrchoedd hysbysebu ac ymgyrchoedd marchnata yng Nghymru yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, waeth beth fo'i ffurf e.e. pamffledi, llyfrynau, taflenni, deunyddiau arddangos mewn arddangosfeydd, negeseuon electronig, DVDau, podlediadau.

Mewn achosion lle mae'r Brifysgol yn hysbysebu ar radio neu deledu, bydd iaith yr hysbyseb yn dibynnu ar y sianel. Defnyddir cyfryngau Cymraeg a Saesneg.

Mae'r dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn digwydd yn Gymraeg neu'n Saesneg yn ôl yr iaith a ddefnyddir gan y sawl a fydd yn cysylltu â'r Brifysgol am wybodaeth bellach. Ymatebir yn gyson yn ôl iaith y cais a byddir yn nodi pa iaith a ddefnyddiwyd.

Yn achos cyfathrebu ysgrifenedig dwyieithog, mae'r Gymraeg yn ymddangos cyn y Saesneg. Pan fo'r testun yn gyfochrog ar yr un dudalen, bydd y fersiwn Gymraeg ar y chwith gyda'r un amlygrwydd o ran arddull a chyflwyniad.

Yn achos dylunio deunydd marchnata yn ddwyieithog, mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Lle bo angen, dylunnir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn achosion arbennig, hysbysebir rhaglenni sydd ar gael drwy gyfrwng un iaith yn unig yn yr

iaith honno, yn enwedig felly pan fo darpariaeth wahanol ar gael yn y naill iaith a'r llall, e.e. rhaglenni theatr a chyfryngau.

Lle bo iaith hefyd yn bwnc academiaidd, gall yr Ysgol/Uned berthnasol gynhyrchu hysbysiadau yn yr iaith honno'n unig.

### **13. Hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau recriwtio staff**

Mae hysbysebion swyddi yn y Brifysgol yn dangos enw'r sefydliad ar ffurf ddwyieithog briodol.

Mae hysbysebion swyddi sy'n ymddangos yn y wasg yng Nghymru yn ddwyieithog; felly hefyd unrhyw wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r swyddi hynny.

Mae unrhyw hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg fel rheol gyda brawddeg o eglurhad yn Saesneg.

Mae unrhyw hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog yn y wasg Gymreig a'r wasg Brydeinig.

Gall unrhyw hysbysebion am swyddi sy'n ymddangos yn y wasg Gymraeg fod yn Gymraeg yn unig a hysbysebion sy'n ymddangos mewn cyhoeddiadau rhyngwladol, pwnc-benodol fod yn Saesneg yn unig.

### **14. Strategaeth Sgiliau Dwyieithog**

Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i anelu at sicrhau bod digon o'r gweithlu yn hyfedr yn y sgiliau dwyieithog priodol i allu darparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob Ysgol/Uned. Oherwydd hanes eu natur ieithyddol, mae'n debyg y bydd y broses o gwrdd â'r ymrwymiad hwn yn arafach ar gampysau Abertawe.

Bydd trefniadau staffio pob Ysgol ac Adran yn destun adolygiad parhaus, er mwyn adnabod y blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion sgiliau dwyieithog. Os yw'r angen yn bodoli, bydd pob Ysgol ac Adran yn anelu at gynyddu nifer y staff yn y gweithle sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cyflawni'r angen i gwrdd â'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o safon.

Fel rhan o'i phrosesau cynllunio adnoddau dynol, mae'r Brifysgol yn paratoi a mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol sy'n ei galluogi i gyd-drefnu agweddau allweddol o'i drefniadau staffio er mwyn hwyluso amcanion craidd y Cynllun hwn, hynny yw:

- archwiliad parhaus o'r gofynion ar gyfer sgiliau dwyieithog;
- archwiliad parhaus o sgiliau iaith y staff presennol;
- dadansoddiad o unrhyw ddiffygion sgiliau a nodwyd gan gymharu canfyddiadau'r ddau archwiliad uchod;
- trefn recriwtio;
- y drefn hyfforddi.

Cynhwysir manylion pellach yn Adran B: Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ond ceir isod grynodedb o safonau craidd y Brifysgol mewn perthynas â datblygu'i gweithlu dwyieithog:

- Wrth ystyried anghenion ieithyddol pob swydd o fewn y Brifysgol, mae Deoniaid Cyfadranau a'r Uned Adnoddau Dynol yn cymryd ystyriaeth o natur y swydd a'r rhyngwyneb rhyngddi a'r cyhoedd.
- Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Arolwg y cyfeirir ato uchod, bydd y Brifysgol yn adnabod unigolion penodol oddi fewn i bob Uned fydd yn gweithredu fel pencampwyr neu hwyluswyr er mwyn sicrhau argaeledd gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.
- Nodir gofynion ieithyddol pob cais am benodiad newydd yn ffurfiol i'r Uned Adnoddau Dynol a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio).
- Lle bo'n ymarferol bosibl, mae penodiadau gweinyddol (gan gynnwys rhai swyddi academaidd-gysylltiedig), ysgrifenyddol a chlercyddol newydd yn rhai dwyieithog.
- Lle bo popeth arall yn gyfartal, ystyrir bod y Gymraeg yn gymhwyster ychwanegol wrth apwyntio i benodiadau academaidd newydd.
- Lle bo'n ymarferol bosibl ac yn cyd-fynd â chyfeiriad Cynllun Strategol Addysg Cyfrwng Gymraeg y Brifysgol, mae'n ymrwymedig i'r cyfleoedd i gyfranogi mewn cynlluniau datblygu a hyfforddi staff cyfrwng Cymraeg newydd sy'n cael eu gweinyddu ar lefel genedlaethol.

Trwy gynnal a dadansoddi'r arolwg uchod yn barhaus, bydd swyddogion yn gallu nodi'r gweithleoedd hynny a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu nad yw'n ofyniad. Gall y gofyniad gael ei adnabod fel un sy'n perthyn i weithle penodol, sefyllfaoedd neu dîm yn hytrach na swydd benodol. Bydd hyn yn galluogi'r swyddogion i ddyrannu swyddi newydd y Brifysgol a swyddi gwag yn un o'r tri chategori canlynol:

CATEGORI A: Swyddi y mae rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol oherwydd eu cysylltiad â'r cyhoedd, neu am resymau eraill (ee cyfieithwyr; swyddog y wasg)

CATEGORI B: Swyddi y mae rhuglder yn y Gymraeg neu wybodaeth o'r Gymraeg yn ddymunol

CATEGORI C: Swyddi lle nad oes unrhyw ofyniad am sgiliau iaith Gymraeg

Bydd pob swydd newydd yn y Brifysgol a phob swydd sy'n dod yn wag, ac y bwriedir iddi gael ei llenwi, yn cael eu gosod yn un o'r tri chategori canlynol:

- a) Er mwyn cynorthwyo'r swyddogion a'r pwyllgorau priodol i weithredu yn unol â'r amcanion staffio hyn, gofynnir i Golegau, Ysgolion ac Adranau ddarparu strategaeth staffio gan nodi eu blaenoriaethau, eu hadnoddau staffio dwyieithog presennol ac unrhyw gamau tymor hir sydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni lefelau digonol o sgiliau dwyieithog.
- b) Ym mhrif swyddfeydd y Brifysgol a'r prif weithleoedd, bydd yn sicrhau bod digon o staff sy'n gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- c) Bydd Penaethiaid timau o staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn trefnu eu timau yn y fath fodd ag i sicrhau bod eu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â gofynion y cynllun hwn.

## **15. Hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae'r Brifysgol yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol yn y Gymraeg yn flynyddol. Yn achos unrhyw gyrsiau galwedigaethol eraill, ystyrir yn gyntaf a ddylid eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw hynny'n ymarferol, byddir yn sicrhau bod grŵp(iau) trafod cyfrwng Cymraeg ar gael.

Gall yr aelodau staff sy'n dymuno dysgu neu ddatblygu eu gwybodaeth o'r iaith, gofrestru ar y cyrsiau a ddarperir gan y Brifysgol. Y Brifysgol fydd yn cwrdd â thaliadau'r cyrsiau hyn a rhoddir pob anogaeth i aelodau staff eu mynychu, ac i Benaethiaid Unedau/Ysgolion hwyluso hynny.

Rhoddir ystyriaeth i geisiadau am gymorth i fynychu cyrsiau mewn mannau eraill pe bai hyn yn fwy cyfleus neu'n fwy addas.

Datblygir a chynigir cyrsiau i wella medrau iaith staff y Brifysgol sy'n Gymraeg eu hiaith gan Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd y Brifysgol. Y bwriad yw gwneud y cyfryw staff yn gwbl hyderus o'u gallu i gyfathrebu yn ysgrifenedig yn ogystal ag ar lafar yn Gymraeg. Rhoddir cefnogaeth i staff fynychu'r cyrsiau hyn.

Mae amrywiaeth eang o gyrsiau ar gael ar gyfer staff y Brifysgol, yn cychwyn gyda darpariaeth ar gyfer dysgwyr prin eu hiaith ac yn ymestyn hyd safon gloywi. Yn ogystal, cynigir sesiynau datblygiad staff mewn methodolegau addysgu dwyieithog ac ymwybyddiaeth iaith.

Mae'r Brifysgol yn paratoi sesiynau ymwybyddiaeth iaith ac yn cyflwyno gofynion a safonau craidd y Cynllun Iaith fel rhan o broses gynefino pob aelod newydd o staff.

## ADRAN B: CYNLLUN GWEITHREDU CYNLLUN IAITH GYMRAEG PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

ALLWEDD: UDRh: Uwch Dîm Rheoli, CGC – Cydlynedd Gwasanaethau Cymraeg, SYG - Staff Ysgol y Gymraeg, HUG -Hwyluswyr Unedau Gweinyddol, HYA - Hwyluswyr Ysgolion Academaidd, AD - Adnoddau Dynol, STG - Staff Technoleg Gwybodaeth, SIG – Swyddog Iaith Gymraeg, DGAA - Deon y Gyfadran Addysg Athrawon, PM – Pennaeth Marchnata, PY – Pennaeth Ystadau, GC – Gwasanaethau corfforaethol, DC – Deoniaid Cyfadran.

| Cyf                | Safon                                 | Gweithred   | Dyddiad Targed  | Dull Monitro                              | Cyfrifoldeb                                  |
|--------------------|---------------------------------------|---|---|---|--|
| Craidd A5.2        | Cytundebau Trydydd Parti              | Bydd y Brifysgol yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• llunio canllawiau cydymffurfio ar gyfer cytundebau trydydd parti</li> <li>• cynnal arolygon chwe misol o gydymffurfiaeth asiantaethau trydydd parti gyda Chynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol</li> </ul>  | MEDI 2014<br><br>CHWEMISOL                              | Llunio Canllawiau<br><br>Arolygon a sampl | UDRh, GC, CGC, SIG, DGAA<br><br>GC, CGC, SIG |
| Gweinyddol Adran A | Proffil Staffio                       | Bydd y Brifysgol yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnal arolwg manwl o holl staff y Brifysgol gan lunio proffil ieithyddol ar gyfer ei staff gweinyddol</li> <li>• adnabod unigolyn oddi fewn i bob Uned sy'n gyfrifol am sicrhau argaeledd gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd i weithredu fel Hwylusydd</li> </ul>   | HYDREF 2014<br><br>MAWRTH 2015                          | Arolwg<br><br>Arolwg                      | AD, UDRh, CGC, SIG                           |
| Gweinyddol A1      | Gohebiaeth ysgrifenedig ac electronig | Mae'r safonau hyn yn weithredol ond rhagwelir yr angen i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• gynnal cyfarfodydd bob tymor yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynllun gyda sampl o staff gweinyddol ar draws gampysau'r Brifysgol</li> <li>• llunio canllawiau ysgrifenedig syml ar gyfer staff</li> <li>• sicrhau bod unigolyn ymhob Uned yn gweithredu fel Hwylusydd, fel sydd wedi'i nodi yn A1</li> </ul> | PARHAUS<br><br>BOB TYMOR<br><br>MAI 2015<br>MAWRTH 2015 | Cyfarfodydd, Sampl achlysurol             | CGC, SIG, HUG                                |
| Gweinyddol A2      | Cyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn    | Mae'r drefn wrth ateb y ffôn yn weithredol ond rhagwelir yr angen i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• gynnal cyfarfodydd bob tymor yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Cynllun gyda sampl o staff gweinyddol ar draws gampysau'r Brifysgol</li> <li>• cynnal sesiynau hyfforddiant i staff er mwyn sicrhau eu bod yn</li> </ul>   | PARHAUS<br><br>BOB TYMOR<br><br>MAI 2015                | Cyfarfodydd, Sampl achlysurol             | CGC, SIG, HUG                                |

|               |   |   |                                 |   |                         |
|---------------|---|---|---------------------------------|---|-------------------------|
|               |   | <p>gallu ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>sicrhau bod unigolyn ymhob Uned yn gweithredu fel Hwylusydd, fel sydd wedi'i nodi yn A1</li> <li>gosod negeseuon dwyieithog ar beiriannau</li> </ul>  | MAWRTH 2015                     |   | CGC, SIG, HUG           |
| Gweinyddol A3 | Cyfarfodydd Cyhoeddus                     | <p>Mae'r safonau hyn yn weithredol a bydd cydymffurfiaeth â hwy'n cael ei monitro'n gyson ar draws gampysau'r Brifysgol. Gwneir hyn trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>sicrhau bod unigolyn ymhob Uned yn gweithredu fel Hwylusydd, fel sydd wedi'i nodi yn A1</li> </ul>   | PARHAUS<br>MAWRTH 2015          | Cyfarfodydd, Sampl  | GC,CGC, SIG, AD         |
| Gweinyddol A4 | Cyfarfodydd eraill â'r Cyhoedd            | <p>Mae'r safonau hyn yn weithredol a bydd cydymffurfiaeth â hwy'n cael ei monitro'n gyson ar draws gampysau'r Brifysgol</p> <p>Yn sgil yr arolwg a nodir yn A1 uchod, bydd y Brifysgol yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>adnabod yr aelodau o staff ymhob Uned sy'n medru'r Gymraeg</li> <li>adnabod a sicrhau unigolyn fydd yn gyfrifol am arolygu'r ymrwymiad hwn ymhob Uned</li> </ul>  | PARHAUS<br>MAI 2015<br>MAI 2015 | Cyfarfodydd, Sampl<br>achlysurol<br>Arolwg<br>Arolwg  | CGC, SIG, HUG<br>AD, GC |
| Gweinyddol A5 | Delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill      | <p>Mae'r safonau hyn yn weithredol a bydd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n gyson. Bydd y Brifysgol hefyd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>llunio canllawiau syml i staff ar weithdrefnau gosod gwybodaeth ddwyieithog ar wefan y Brifysgol</li> </ul>   | MAI 2015                        | Sampl<br>achlysurol<br>Llunio<br>canllawiau   | CGC, SIG, PM            |
| Gweinyddol A6 | Gweithredu'r Cynllun Iaith â Staff Mewnol | <p>Mae cyfleusterau cyfieithu yn cael eu darparu ar gyfer y pwyllgorau canlynol:<br/>Cyngor y Brifysgol; Y Senedd; Pwyllgorau Sefydlog y Senedd, Is-bwyllgorau Pwyllgorau Sefydlog y Senedd, Byrddau Cyfadran; Byrddau Ysgol; Byrddau Arholi (Mewnol ac Allanol); Byrddau Dilyniant; Byrddau Dyfarnu; Pwyllgorau Staff - Myfyrwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygir y drefn hon yn flynyddol gydag ymrwymiad i ychwanegu at y rhestr ond nid ei lleihau/cwtogi.</li> </ul> | PARHAUS<br>MAWRTH 2015          | Ymgynghori cyson â staff a chadeiryddion pwyllgorau'r Brifysgol<br>Ymgynghori gyda staff a chadeiryddion pwyllgorau'r Brifysgol | DGAA, CGC, SIG          |



|               |   |   |                               |   |                            |
|---------------|---|---|-------------------------------|---|----------------------------|
|               |   | <p>Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod cofnodion pob prif bwyllgor ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Mae gweinyddiaeth ganolog gyffredinol y Brifysgol yn ddwyieithog, a sicrheir bod canllaw syml yn ei le ar gyfer y staff gweinyddol sy'n egluro hynny. Bydd hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>yn cael ei fonitro'n chwemisol</li> </ul> <p>Bydd gweinyddiaeth ganolog y Brifysgol yn sefydlu dewis iaith pob aelod o staff ar gyfer derbyn gohebiaeth fwy personol ei natur, gan weithredu'n unol â hynny.</p>   | CHWEMISOL                     | <p>Llunio canllawiau</p> <p>Samplo</p> <p>Awdit Iaith</p> | CGC, SIG, HUG, HYA, AD, GC |
| Gweinyddol A7 | Hunaniaeth Gorfforaethol yng Nghymru  | Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i sicrhau y bydd pob un agwedd ar ei hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog. Gwneir hynny trwy gylchredeg nodyn i staff ar ddechrau pob blwyddyn academaidd sy'n nodi'r ymrwymiad hwn ac yn nodi'r camau angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag ef.   | PARHAUS                       | Samplo ac arolygu parhaus                                 | PM, CGC, SIG,              |
| Gweinyddol A8 | Arwyddion Gwybodaeth o Fewn Ffiniau'r Brifysgol   | Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i sicrhau y bydd pob arwydd yn ddwyieithog, ac eithrio gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr tramor yn unig.   | PARHAUS                       | Arolygu parhaus   | PY, CGC, SIG               |
| Gweinyddol A9 | <p>Cyhoeddi a Phrintio Deunydd i'r Cyhoedd yng Nghymru</p> <p>Ffurflenni a Deunydd Esboniadol</p> | <p>Sicrheir y bydd deunydd sy'n dod i sylw'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd y Brifysgol yn llunio canllawiau clir i staff ar y drefn o :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>sicrhau bod deunyddiau'n cael eu paratoi'n ddwyieithog</li> <li>sicrhau bod deunyddiau a gynhyrchir ar wahân yn cael eu dosbarthu'r un pryd</li> </ul> <p>Mae'r prif gyhoeddiadau canlynol ar gael yn ddwyieithog: Llawlyfr Ansawdd Academaidd, Prosbectws Israddedig; Rheoliadau'r Brifysgol: Canllaw i Fyfyrrwyr Israddedig; Rheoliadau'r Brifysgol: Canllaw i Fyfyrrwyr Ôl-raddedig</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygir y drefn hon yn flynyddol gydag ymrwymiad i ychwanegu at y rhestr ond nid ei lleihau/cwtogi.</li> </ul> | <p>PARHAUS</p> <p>PARHAUS</p> | <p>Llunio canllawiau ac arolygu parhaus</p>               | PM, CGC, SIG, DCAA         |

|                |   |   |                            |   |   |
|----------------|---|---|----------------------------|---|---|
| Gweinyddol A11 | Hysbysiadau i'r Wasg<br><br>Deunydd Cyhoeddusrwydd, Hysbysebu a Marchnata | Sicrheir y bydd pob dull o gyfathrebu â'r wasg neu'r cyfryngau yn ddwyieithog. Bydd y Brifysgol yn llunio canllawiau syml i staff ar y drefn o:<br><ul style="list-style-type: none"> <li>sicrhau bod datganiadau a hysbysebion yn cael eu rhyddhau'n briodol yn y ddwy iaith i'r papurau, cylchgronau, rhaglenni perthnasol</li> <li>sicrhau bod y Brifysgol yn ymateb yn yr iaith briodol i'r sawl sy'n cysylltu am wybodaeth bellach</li> <li>sicrhau bod canllawiau dylunio mewn lle ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn briodol</li> <li>sicrhau eglurder ar sut i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau academaidd a darpariaethau mwy penodol, e.e. y theatr a'r cyfryngau</li> </ul> Cedwir cofnod o'r iaith a ddefnyddir wrth ryddhau datganiadau, hysbysebu a chyfathrebu'n gyffredinol â'r wasg at ddibenion monitro. | PARHAUS<br><br>MAI 2015    | Llunio canllawiau ac adolygu parhaus<br><br>Cofnodi defnydd iaith | PM<br><br>AD, CGC, SIG, HUG, HYA,<br><br>PM, CGC, SIG |
| Gweinyddol A13 | Hysbysiadau Swyddogol a Recriwtio   | Sicrheir y bydd hysbysebion swyddi'n ymddangos yn y wasg yn ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg yng Nghymru gyda brawddeg o eglurhad yn Saesneg. I'r perwyl hwn, bydd y Brifysgol yn llunio canllawiau syml i staff ar y drefn o:<br><ul style="list-style-type: none"> <li>sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn cynnwys hysbysebion yn yr iaith/ieithoedd priodol oddi fewn i gyhoeddiadau Cymraeg a Chymreig.</li> </ul> Bydd y drefn uchod yn cael eu monitro'n gyson.  | MAWRTH 2015<br><br>PARHAUS | Llunio canllawiau<br><br>Samplo parhaus                           | CGC, SIG, DGAA<br><br>AD, PM, CGC, SIG                |
| Gweinyddol A14 | Strategaeth Sgiliau Dwyieithog  | Bydd yr arolwg manwl o holl staff y Brifysgol a nodir uchod (A1) yn arwain at lunio Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ar gyfer y sefydliad. Bydd y ddogfen hon yn sicrhau bod y Brifysgol yn:<br><ul style="list-style-type: none"> <li>meddu ar broffil ieithyddol o'i staff</li> <li>medru llunio rhaglen o hyfforddiant ieithyddol, ymwybyddiaeth iaith i'w staff,</li> <li>medru adnabod cyfleoedd recriwtio staff dwyieithog i unedau/ysgolion penodol</li> <li>•+ nodi gofynion ieithyddol swyddi unigol newydd</li> </ul>   | MAI 2016                   |   | CGC, SIG, DCAA, AD, GC                                |

|                   |                                |   |                        |                         |                                  |
|-------------------|--------------------------------|---|------------------------|-------------------------|----------------------------------|
| Gweinyddol<br>A15 | Hyfforddiant<br>Galwedigaethol | Mae'r Brifysgol yn darparu cyrsiau dysgu iaith a gloywi iaith i'w staff. Y mae hefyd yn darparu cyrsiau Ymwybyddiaeth iaith a chysiau ar fethodolegau dysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Cynigir sesiynau ar y Cynllun Iaith i bob aelod newydd o staff. Mae'r Brifysgol yn gwahodd cynigion gan aelodau unigol o staff i fynychu'r cyrsiau hyn ac, yn seiliedig ar A1 uchod, bydd y Brifysgol yn adnabod unigolion y mae'n teimlo y gallent ymelwa o'r ddarpariaeth. Mae'r Brifysgol yn cadw cofnod o'r aelodau hynny o staff sy'n dilyn y cyrsiau dan sylw. | PARHAUS<br><br>PARHAUS | Darpariaeth<br>ffurfiol | SYG, CGC<br><br>CGC, HUG,<br>HYA |
|-------------------|--------------------------------|---|------------------------|-------------------------|----------------------------------|

## **Adran C: CYNLLUN STRATEGOL ADDYSG GYMRAEG A DWYIEITHOG**

### **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

#### **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog**

Mae'r Cynllun Strategol uchod yn cael ei lunio ar hyn o bryd a'r bwriad yw ei gyflwyno i sylw cyfarfod cyntaf y Senedd ar ei newydd wedd yn Hydref 2014. Ychwanegir y strategaeth at y Cynllun Iaith hwn fel atodiad C, unwaith bod y strategaeth yn derfynol ac wedi ei chymeradwyo.

Bydd y Cynllun Strategol Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog newydd yn strategaeth uchelgeisiol a fydd yn tanlinellu rôl arweiniol y Brifysgol yng nghyd-destun addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn cynnig gweledigaeth gadarn a fydd yn adeiladu ar gryfderau'r presennol gan hefyd osod targedau penodol ar gyfer datblygu darpariaeth Gymraeg mewn meysydd o'r newydd ar amrywiol gampysau'r Brifysgol. Bydd y Strategaeth yn amlinellu'r gefnogaeth sylweddol a fydd yn bodoli ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith gan hefyd grynhoi'r amrywiol gyfleon a ddarperir i fyfyrwyr a staff ddysgu'r Gymraeg.

Rhoddir sylw neilltuol i'r modd y caiff y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ei marchnata a thanlinellir y berthynas waith ragorol sy'n bodoli rhwng y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Esbonnir sut y caiff y Strategaeth ei rheoli a'i monitro ac eglurir ei pherthynas ddatblygol ag ystod o strategaethau eraill o fewn y Brifysgol. Drwy wneud hyn bydd y Brifysgol yn dangos ei ymrwymiad i fod yn sefydliad naturiol ddwyieithog a fydd yn gweithredu'n rhagweithiol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

Hyd nes y cymeradwyir y Cynllun newydd fe fydd cynllun gyfredol y Brifysgol yn parhau mewn grym. Yn y cyfamser, fodd bynnag, gellir tynnu sylw at y gwaith cyfredol canlynol:

#### **Canolfan Peniarth:**

Mae Canolfan Peniarth, sef canolfan gyhoeddi Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi llwyddo i ennill tendrau sylweddol eu maint o du Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys tendrau sy'n comisiynu deunyddiau dwyieithog i'w defnyddio ar lawr dosbarth ar draws pob sector addysg yng Nghymru.

Mae'r deunyddiau hyn yn amrywio o adnoddau papur i ddeunydd ffilm i weithgareddau rhyngweithiol ar-lein.

Yn atodol i hyn, mae Canolfan Peniarth hefyd yn cartrefu cyrsiau'r Cynllun Sabothol i Athrawon a ddarperir gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant dan nawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Sabothol i Athrawon yn rhan greiddiol a chanolog i Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y Llywodraeth.

## Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

Ym mis Mawrth 2012, sefydlwyd Cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y Brifysgol, ac mae Swyddfa'r Gangen wedi ei lleoli mewn safle canolog ac amlwg ar y campws yng Nghaerfyrddin o fewn adeilad yr Hen Goleg, yng nghanol bwrlwm a phrysurdeb y Brifysgol, lle mae modd i fyfyrwyr alw i mewn am sgwrs ac i dderbyn cyngor a gwybodaeth ar unrhyw adeg. Sefydlwyd Pwyllgor Cangen yn ogystal, a Chadeirydd Cangen, ac mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf dwywaith y semester i drafod materion a datblygiadau cyfrwng Cymraeg o fewn y Brifysgol ac yn genedlaethol.

Penodwyd Swyddog Cangen ac mae'n gweithio'n agos gyda staff o fewn yr Ysgolion academaidd er mwyn hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr y Brifysgol.

Mae'r camau a gymerir i ddenu a chrosawu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys y canlynol:

- Lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael o fewn Ysgol Academaidd, mae'r Ysgol yn ceisio sicrhau bod naill ai Tiwtor Derbyn sy'n rhugl yn y Gymraeg o fewn yr Ysgol, neu bod Tiwtor derbyn ar wahân mewn lle ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn cynghori darpar fyfyrwyr ar y cyfleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn yr Ysgol, a'r manteision sydd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae Swyddog Cangen y Brifysgol yn sicrhau bod stondin gan Gangen y Coleg Cymraeg yn nyddiau agored y Brifysgol, lle mae modd i ddarpar fyfyrwyr dderbyn gwybodaeth am gyfleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn y Brifysgol, yn ogystal â gwybodaeth am y manteision cyllidol amrywiol sydd i fyfyrwyr drwy Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg
- Er mwyn atgoffa darpar fyfyrwyr o'r Ysgoloriaethau a'r Bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg, anfonir llythyr atynt yn dilyn eu cyfweiliadau, fel arfer rhwng mis Mawrth a mis Mai bob blwyddyn.

Yn flynyddol mae'r Swyddog Cangen yn trefnu gweithgaredd arbennig i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg, lle gwahoddir myfyrwyr y flwyddyn gyntaf i ddechrau yn y Brifysgol ddeuddydd ynghynt na gweddill y myfyrwyr ar gyfer Penwythnos Cynefino Glas Fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg.

Nodau'r penwythnos yw:

- i) annog myfyrwyr i astudio'u cyrsiau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg
- ii) codi hyder myfyrwyr yn eu sgiliau iaith Cymraeg.

Yn rhan o weithgareddau'r penwythnos mae sesiynau ar sgiliau iaith, sesiynau gan Ysgolion Academaidd yn rhoi trosolwg manwl o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar bob cwrs gradd, taith o amgylch yr ardal leol, cyflwyniad gan Gyflogwyr, ffair glas myfyrwyr Cymraeg a gweithgareddau cymdeithasol dan ofal myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Mae'r penwythnosau wedi bod yn hynod lwyddiannus gyda bron i 70 o fyfyrwyr yn mynychu bob blwyddyn, a chafwyd ymateb cadarnhaol iawn.

Mae gan y Brifysgol Bwyllgor Cangen myfyrwyr sy'n cwrdd o leiaf unwaith bob semester gyda'r Swyddog Cangen. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolydd myfyrwyr o bob cwrs gradd cyfrwng Cymraeg o bob blwyddyn.

Mae'r cyfarfodydd Pwyllgor Cangen myfyrwyr yn;

- i) rhoi cyfle i'r Brifysgol ddiweddarau myfyrwyr o unrhyw ddatblygiadau cyfrwng Cymraeg o fewn y Brifysgol ac yn Genedlaethol, a chael eu barn ar amryw ddatblygiadau
- ii) rhoi cyfle i fyfyrwyr leisio unrhyw faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn gallu cynorthwyo'r Brifysgol yn y pendraw i hyrwyddo'r ddarpariaeth yn y dulliau mwyaf effeithiol.
- iii) cynorthwyo'r Swyddog Cangen i drefnu gweithgareddau amrywiol i fyfyrwyr y Brifysgol

Datblygwyd ardal benodol o fewn gwefan y Brifysgol - Y Lle Cymraeg - ar gyfer rhoi gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr am gyfleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr o fewn y Drindod Dewi Sant. Bydd y rhan yma yn cael ei ail lansio yn ystod haf 2014 i gyd fynd â gwefan newydd y Brifysgol. Bydd y tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y Gangen, gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chlybiau a chymdeithasau Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr.

### **Cefnogaeth/Anogaeth leithyddol:**

Mae pob myfyriwr llawn-amser di-Gymraeg sy'n awyddus i ddysgu'r iaith yn cael cyfle i gofrestru ar unrhyw gwrs Cymraeg i Oedolion yn rhad ac am ddim. Mae holl fyfyrwyr Cymraeg y Brifysgol yn cael eu hannog i ddilyn Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae hon yn Dystysgrif newydd ac yn darparu cyfle i fyfyrwyr ennill cymhwyster sy'n dangos eu sgiliau iaith Cymraeg, a'u galluogi i ddangos tystiolaeth i gyflogwyr o'u gallu i gyfathrebu'n hyderus yn broffesiynol yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r Brifysgol yn darparu cyfleoedd i bob myfyriwr dderbyn sesiynau a chefnogaeth gan diwtor iaith sydd yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y Dystysgrif. Fe wnaeth 37 o fyfyrwyr y Brifysgol ymgeisio am y Dystysgrif yn 2014, nid yw'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi eto.

### **Profiad neu Leoliadau Gwaith:**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi penodi dau Swyddog Datblygu: Lleoliadau Gwaith, ac mae'r swyddogion hyn wedi bod yn casglu gwybodaeth am gyrsiau a modylau sydd yn cynnig cyfnod profiad neu leoliad gwaith i fyfyrwyr, a sut y sicrhau profiad cyfrwng Cymraeg / dwyieithog i fyfyrwyr. Mae'n orfodol i fyfyrwyr sydd wedi ennill ysgoloriaeth gan y Coleg i ymgymryd â phrofiad gwaith cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â'r hyn mae'r Swyddogion Datblygu yn eu trefnu, mae'r Swyddog Cangen yn gweithio i sicrhau bod y myfyrwyr yn ennill profiadau gwaith cyfrwng Cymraeg a dwyieithog e.e. sicrhawyd gwaith i nifer o fyfyrwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014 er mwyn datblygu a meithrin ei sgiliau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Prosiectau:**

Nod Cronfa Datblygiadau Strategol a Phrosiectau'r Coleg yw cefnogi a symbylu datblygiadau strategol a fydd yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyllidwyd hefyd nifer o brosiectau llai trwy'r Gronfa Grantiau Bach. Mae'r Brifysgol wedi ennill nifer fawr o brosiectau er mwyn creu a datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg i'n myfyrwyr a'n darlithwyr.

### **Marchnata:**

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn paratoi prosiectws Cymraeg a phrosiectws Saesneg yng Nghymru. Disgrifir rhaglenni unigol yn ôl cyfrwng yr addysgu ond yr un yw'r holl wybodaeth gyffredinol yn y ddau brosiectws.

Erys y Brifysgol yn un o brif ddarparwyr addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ac mae'n awyddus i chwarae rôl ganolog o fewn strwythurau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chydweithio'n agos gyda'r Coleg wrth hyrwyddo manteision a buddiannau astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn olaf, gan fod cynllun strategol addysg Gymraeg a dwyieithog cyfredol y Brifysgol yn cyfeirio at gampysau Caerfyrddin a Llambled, teimlwyd y dylid cyfeirio hefyd at dargedau cyfredol campysau Abertawe:

### **Crynodeb o dargedau datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gampysau Abertawe:**

#### CYFADRAN BUSNES A RHEOLAETH

Datblygu modiwlau Cymraeg ar gyrsiau Busnes, Hamdden, Twristiaeth, Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus gan ddefnyddio modiwlau sy'n gyffredin i'r holl gyrsiau fel prif sail.

#### CYFADRAN ADDYSG ATHRAWON

Cynyddu nifer y pynciau TAR Uwchradd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynyddu nifer y staff cyfrwng Cymraeg ar y TAR Cynradd.

Cynyddu niferoedd myfyrwyr sydd yn gwneud cyrsiau TAR drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd niferoedd ar leoliadau ymarfer dysgu cyfrwng Cymraeg.

Ymchwilio i mewn i'r posibilrwydd o gynnig peth darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyrsiau ôl-raddedig eraill, e.e. y cwrs PCET

#### CYFADRAN Y GWYDDORAU CYMDEITHASOL (campws Abertawe yn unig)

Ceisio cael cefnogaeth y Coleg Cymraeg i gynorthwyo datblygu cwrs Cwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### CYFADRAN GELF

Cynnig y Cwrs Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg (peth llwyddiant yn y gorffennol ond dim ers sawl blwyddyn)

#### CYFADRAN BEIRIANNEG

Ceisio datblygu darpariaeth e.e. defnyddio modiwl sydd yn greiddiol i mwyafrif llethol y rhaglenni yn y Gyfadrann megis Mathemateg. Hefyd ffigyrau yn dangos fod niferoedd weddol hyfyw o siaradwyr Cymraeg ar gyrsiau Cyfrifiadura.